Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Polisi a Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban

## 1. Beth yw chwythu'r chwiban?

1.1 Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU), sy'n amlinellu enghreifftiau o'r hyn sy'n gyfystyr â chwythu'r chwiban yn ei arweiniad ar chwythu'r chwiban, yn ei ddisgrifio fel a ganlyn:[1]

- rydych chi'n chwythwr chwiban os ydych chi'n weithiwr ac yn adrodd ar fathau penodol o gamweddau. Fel arfer, bydd hyn yn rhywbeth rydych chi wedi'i weld yn y gwaith – ond nid bob amser.

- rhaid i'r camwedd rydych yn ei ddatgelu ymwneud â materion er budd y cyhoedd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddo effeithio ar bobl eraill, er enghraifft, y cyhoedd yn gyffredinol.

- fel chwythwr chwiban, rydych chi wedi'ch amddiffyn gan y gyfraith – ni ddylech gael eich trin yn annheg neu golli eich swydd oherwydd eich bod yn 'chwythu'r chwiban'.

- gallwch chi godi eich pryder ar unrhyw adeg am ddigwyddiad a ddigwyddodd yn y gorffennol, neu sy'n digwydd nawr, neu a fydd, yn eich tyb chi, yn digwydd yn fuan.

Mae 'Protect', sef elusen chwythu'r chwiban yn y DU, hefyd yn cynnig enghreifftiau o chwythu'r chwiban ac arweiniad ar bob agwedd ar chwythu'r chwiban.[2]

## 2. Pam mae chwythu'r chwiban yn bwysig i Ofal Cymdeithasol Cymru?

2.1 Mae chwythu'r chwiban yn bwysig i Ofal Cymdeithasol Cymru oherwydd ein bod yn gorff diogelu'r cyhoedd. Fel y cyfryw, mae'n ofynnol i ni ddiogelu'r

---

[1] www.gov.uk/whistleblowing
[2] Mae Protect yn elusen sy'n cynnig cyngor cyfrinachol am ddim i bobl nad ydynt yn sicr a ddylent godi pryderon ynghylch arferion yn y gwaith, neu sut i wneud hynny. www.protect-advice.org.uk

cyhoedd, hyrwyddo a chynnal safonau uchel mewn gofal cymdeithasol a chynnal hyder y cyhoedd yn y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rhaid i ni fod yn ymwybodol o faterion sy'n bygwth diogelwch y cyhoedd yn y sector gofal cymdeithasol neu sy'n cwestiynu'r gwerthoedd y ceisiwn eu cynnal.

2.2 Mae dyletswydd arnom i ymateb i chwythu'r chwiban ac i gyflwyno adroddiad blynyddol am unrhyw adroddiadau chwythu'r chwiban a dderbyniwn. Mae hyn oherwydd ein bod yn gorff rhagnodedig o dan Orchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014 (fel y'i diwygiwyd).[3]

2.3 Byddwn yn cymryd cwynion chwythu'r chwiban o ddifrif ac yn ymateb iddynt yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd.[4] Yn ogystal, byddwn yn dilyn Cod Ymarfer y Comisiwn Chwythu'r Chwiban, i'r graddau y mae'n ymwneud â chyrff rheoleiddio rhagnodedig.[5]

## 3. Cyfrifoldebau sefydliadol

3.1 Gall chwythwyr chwiban gysylltu ag unrhyw un yn ein sefydliad i wneud cwyn gychwynnol, ond cyfrifoldeb y tîm Addasrwydd i Ymarfer (AIY) yw ymchwilio i bryderon chwythu'r chwiban ac ymateb iddynt.

3.2 Ein Pwyllgor Archwilio a Risg fydd yn gyfrifol am oruchwyliaeth ac adolygu annibynnol mewn perthynas â'n trefniadau chwythu'r chwiban.

3.3 Y Swyddog Llywodraethu a Monitro fydd yn gyfrifol am lunio ein hadroddiad chwythu'r chwiban blynyddol.

## 4. Beth yw diben y polisi hwn a phwy ddylai ei ddarllen?

4.1 Mae'r polisi yma ar gyfer aelodau'r cyhoedd sy'n ystyried gwneud cwyn chwythu'r chwiban i Ofal Cymdeithasol Cymru.

---

[3] Ychwanegodd Gorchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) (Diwygio) 2017 Ofal Cymdeithasol Cymru at restr y cyrff rhagnodedig yn yr Atodlen i Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014 (yn lle'r cyfeiriad at Gyngor Gofal Cymru) at ddibenion s43(F) Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996. https://www.gov.uk/government/publications/blowing-the-whistle-list-of-prescribed-people-and-bodies--2

[4] https://www.gov.uk/government/publications/guidance-for-auditors-and-independent-examiners-of-charities/the-public-interest-disclosure-act--2

[5] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/415175/bis-15-200-whistleblowing-guidance-for-employers-and-code-of-practice.pdf

4.2 Mae'n gosod yr hyn y disgwylir i staff ei wneud pan fydd chwythwr chwiban yn cysylltu â nhw yn ystod eu gwaith. Nid ydyw ar gyfer chwythwyr chwiban sy'n gweithio i ni, nac aelodau ein Bwrdd, gan fod gennym bolisïau chwythu'r chwiban ar wahân ar eu cyfer.

4.3 Nid yw'n ganllaw cynhwysfawr ar gyfer chwythu'r chwiban. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth fanwl am chwythu'r chwiban ar wefan Protect.[6]

## 5. Sut mae ein haelodau staff yn ymdrin â phryderon chwythu'r chwiban

5.1 Gall chwythwyr chwiban gysylltu ag unrhyw aelod staff i sôn am eu pryderon. Pwy bynnag y maent yn cysylltu â nhw, dylid eu trin â pharch a sensitifrwydd, a dylid rhoi gwybodaeth gyson iddynt.

5.2 Os yw chwythwr chwiban sy'n codi pryder yn cysylltu ar y ffôn ag aelod staff y tu allan i'r tîm AIY, dylid trosglwyddo'r chwythwr chwiban i'r tîm AIY yn uniongyrchol, lle bo hynny'n bosibl, neu roi'r manylion cyswllt isod iddynt. Mae'r blwch gollwng AIY yn cael ei fonitro bob diwrnod gan y tîm AIY.

Pennaeth Brysbennu
Gofal Cymdeithasol Cymru
Tŷ South Gate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

E-bost: CwynionAIY@socialcare.wales
Ffôn: 0300 3033 444 Gwefan: gofalcymdeithasol.cymru

5.3 Os yw'r chwythwr chwiban yn dweud y byddai'n well ganddynt rannu'r wybodaeth ag aelod staff nad ydynt yn rhan o'r tîm AIY, dylai'r aelod staff gyfeirio'r chwythwr chwiban at y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Rheoleiddio.

5.4 Dylai aelodau staff drin yr holl wybodaeth a dderbyniant gan chwythwyr chwiban fel gwybodaeth sensitif a chyfrinachol. Ni ddylent drafod manylion am chwythu'r chwiban ag unrhyw un ac eithrio'r tîm addasrwydd i ymarfer, a hyd yn oed wedyn, dylent wneud hynny at ddibenion trosglwyddo'r wybodaeth yn unig.

[6] www.protect-advice.org.uk

5.5 Dylai aelodau staff atgoffa'r chwythwyr chwiban na ddylent dorri Deddf Diogelu Data 2018/Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU wrth roi gwybodaeth i ni. Er enghraifft, wrth ddarparu gwybodaeth o ffeil achos plentyn neu ddogfennau llys heb ganiatâd y llys.

5.6 Ar ôl i'r aelod staff drosglwyddo unrhyw nodiadau am chwythu'r chwiban i'r tîm AIY, dylai'r aelod staff sicrhau eu bod yn cael gwared ar y nodiadau yn ddiogel.

## 6 Sut mae ein tîm AIY yn ymdrin â phryderon chwythu'r chwiban

6.1 Ym mhob cwyn chwythu'r chwiban, mae'n bosibl y bydd y tîm AIY yn argymell bod y person sy'n codi'r pryder yn ceisio cyngor gan gorff proffesiynol, undeb llafur, corff myfyrwyr neu 'Protect' cyn rhoi manylion am eu pryder. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes risg y bydd y person yn datgelu hunaniaeth unigolyn heb ganiatâd y person hwnnw.

6.2 Pan fydd y gŵyn chwythu'r chwiban yn un y gall Gofal Cymdeithasol Cymru ei hystyried, dylai'r tîm AIY esbonio i'r chwythwr chwiban y gallant godi eu pryder yn gyfrinachol ac na fydd eu manylion yn cael eu rhyddhau heb eu caniatâd, oni bai bod y tîm AIY o dan ddyletswydd gyfreithiol i wneud hynny. Os nad yw'r unigolyn eisiau aros yn ddienw, bydd y tîm AIY yn nodi eu manylion cyswllt.

6.3 Os yw'r chwythwr chwiban yn dymuno aros yn ddienw, bydd y tîm AIY yn esbonio y gallai'r cais i aros yn ddienw effeithio ar allu'r tîm i ymchwilio i'r mater. Fodd bynnag, ni fydd penderfyniad i aros yn ddienw yn cael ei ystyried yn rhwystr i ymchwilio a dylid gwneud y chwythwr chwiban yn ymwybodol o hyn.

6.4 Bydd y tîm AIY yn gofyn i'r unigolyn p'un a ydynt wedi codi eu pryderon trwy weithdrefn gwynion neu bolisi chwythu'r chwiban eu cyflogwr. Os nad ydynt wedi gwneud hyn eisoes, fe'u cynghorir i wneud hynny. Os ydynt wedi codi eu pryderon gyda'i cyflogwr ond yn teimlo bod unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol, bydd ein tîm AIY yn ymchwilio

- pan ddeliwyd â'r gŵyn yn annigonol, a/neu
- bod risg i bobl eraill, a/neu
- gallai'r mater gwestiynu addasrwydd person i aros ar ein Cofrestr, a
- ble mae tystiolaeth berthnasol ddigonol i gefnogi'r honiad.

6.5 Ar ôl derbyn atgyfeiriad, bydd y tîm AIY yn:

- cynnal asesiad risg dynamig ar y wybodaeth a gafwyd
- cydnabod y pryder o fewn 5 diwrnod

- cofnodi'r pryder yn y system rheoli achosion AIY
- darparu diweddariad am beth fydd yn digwydd nesaf, o fewn 14 diwrnod gwaith o dderbyn y pryder gwreiddiol
- rhoi pwynt cyswllt o fewn y tîm AIY i'r chwythwr chwiban (os yw'r chwythwr chwiban wedi rhoi manylion cyswllt)
- cyfeirio'r chwythwr chwiban at ffynonellau cefnogaeth, lle bo hynny'n berthnasol
- cysylltu â sefydliad arall – megis Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – lle bo hynny'n berthnasol, er enghraifft, pan fo chwythu'r chwiban yn ymwneud â honiad o fethiannau sefydliadol
- sicrhau bod gwybodaeth am yr atgyfeiriad yn cael ei phrosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018/GDPR y DU.[7]

6.6 Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd y tîm AIY yn dod â'r mater gerbron cyrff rheoleiddio eraill, lle bo hynny'n briodol.

6.7 Pan agorir y pryder fel achos addasrwydd i ymarfer, bydd y chwythwr chwiban yn cael llythyr pan fydd yr achos wedi'i gau.

6.8 Mae'n bosibl na fydd digon o wybodaeth i agor achos yn dilyn atgyfeiriad chwythu'r chwiban. Mewn achosion o'r fath, ac os yw'r chwythwr chwiban yn cytuno i hynny, bydd y tîm AIY yn rhannu unrhyw dystiolaeth berthnasol ag asiantaethau eraill ac yn cofnodi unrhyw gamau a gymerir. Bydd y wybodaeth yn aros yn y system rheoli achosion ac os daw rhagor o dystiolaeth i'r amlwg yn ddiweddarach, bydd y tîm AIY yn gwneud asesiad ynghylch agor achos.

6.9 Byddwn yn cadw gwybodaeth am eich cwyn chwythu'r chwiban am 3 blynedd cyn gwaredu'r wybodaeth, oni bai bod y wybodaeth yn ymwneud â gweithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig, pan gaiff y wybodaeth ei chadw am 50 mlynedd.

6.10 Rydym yn deall y gall gwneud atgyfeiriad chwythu'r chwiban i ni fod yn brofiad anodd a llawn straen. Rydym am eich cefnogi drwy'r broses hon. Rydym yn cynnig cyngor cyfrinachol am ddim a gwasanaeth cymorth emosiynol i bobl sydd wedi codi cwynion chwythu'r chwiban. Byddwch yn gallu manteisio ar y gwasanaeth hwn tra mae'ch cwyn yn cael ei hystyried.

**Cymeradwywyd y polisi gan**:

Enw: David Pritchard

Rôl: Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Datblygu'r Gweithlu/Cofrestrydd

[7] Am fanylion am sut mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn prosesu gwybodaeth bersonol, gweler Hysbysiad Preifatrwydd Gofal Cymdeithasol Cymru – https://gofalcymdeithasol.cymru/hysbysiad-preifatrwydd

Dyddiad: